Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

## SFWIN 07/2020

Newidiadau i'w cynnwys yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22

Rhagfyr 2020

**Newidiadau i'w cynnws yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22**

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn cael eu drafftio ar hyn o bryd, ac o'u pasio, byddant yn cefnogi myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n gwneud cwrs addysg uwch dynodedig.

Disgwylir i Reoliadau 2021 ddod i rym ar 26 Chwefror 2021.

Mae Rheoliadau 2021 yn berthnasol ar gyfer y blynyddoedd academaidd sy'n cychwyn ar 1 Awst 2021 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ac mae'r newidiadau a wneir ynddynt wedi'u nodi isod:

## 1. Pecyn ariannol

Caiff y Rheoliadau eu diwygio i newid y maint o gymorth a roddir i fyfyrwyr israddedig yn unol â'r polisi sydd wedi'i sefydlu, fel a ganlyn:

- **cynyddu** cyfanswm y Grant i Fyfyrwyr Anabl a fydd ar gael i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau i astudio (h.y. pob carfan) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru;
- **cynyddu** swm y Grantiau ar gyfer Dibynyddion a fydd ar gael ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau i astudio (h.y. pob carfan) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir (3.05 y cant);
- **cynyddu** swm y benthyciad cynhaliaeth a fydd ar gael i'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod y pecyn cynhaliaeth cyfan yn adlewyrchu amcanestyniad y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer 2021 (cyfradd fesul awr o £9.20 ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol);
- **cynyddu** swm y benthyciad cynhaliaeth a fydd ar gael i'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Medi 2012 neu ar ôl y dyddiad hwnnw ond cyn 1 Awst 2018 yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir, er mwyn adlewyrchu costau byw cynyddol; a
- **gostwng** swm y grant ffioedd dysgu a **chynyddu** swm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer y myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Medi 2012 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ond cyn 1 Awst 2018, yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir, fel nad yw cyfanswm y cymorth ar gyfer ffioedd dysgu yn newid.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Meistr Ôl-raddedig yn cael eu diwygio i **gynyddu** swm y cymorth yn ôl mynegai prisiau manwerthu ar gyfer pob eitem ac eithrio llog morgeisi (RPIX) o £17,489 i £18,025, drwy gynyddu swm y benthyciad. Bydd hyn yn

berthnasol i fyfyrwyr newydd yn unig sy'n dechrau cyrsiau ar 1 Awst 2021 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Doethurol Ôl-raddedig yn cael eu diwygio i gynyddu swm y cymorth yn ôl RPIX, o £26,445 i £27,265. Benthyciad yn unig yw'r cymorth doethurol. Unwaith eto, bydd hyn ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n dechrau cyrsiau ar 1 Awst 2021 neu ar ôl y dyddiad hwnnw – sy'n newid o'r codiad blaenorol.

Ceir rhagor o fanylion am hyn yn SFWIN 06/2020, mewn perthynas â chyhoeddi'r Memorandwm Arianol.

## 2. Grantiau i Fyfyrwyr Anabl (a elwir yn Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl)

Mae rheoliadau'n cael eu diwygio i alluogi mwy o hyblygrwydd i fyfyrwyr ac i greu cydraddoldeb i bob myfyriwr anabl:

- Ar hyn o bryd mae pedwar trothwy i gategorïau'r lwfans ar gael i fyfyrwyr. Bydd tri o'r rhain (lwfans cynorthwyydd anfeddygol, cyfarpar arbenigol a lwfans cyffredinol ar gyfer pob gwariant arall sy'n gysylltiedig â'r anabledd) yn cael eu cyfuno'n un categori. Bydd costau teithio'n parhau fel lwfans ar wahân heb drothwy wedi'i ragddiffinio, fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd.
- Bydd y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig yn cyd-fynd â'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig.
- Bydd y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yn cyd-fynd â'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn.

Y cap ar y lwfans cyfunol newydd (ac eithrio costau teithio) ar gyfer 2021/22 fydd £31,831. Mae'r cap hwn yr un fath ar gyfer myfyrwyr amser llawn neu ran-amser sy'n astudio ar lefel israddedig neu ôl-raddedig.

Yn ogystal, mae gwelliant yn cael ei wneud i sicrhau y bydd myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, sy'n dod yn fyfyrwyr cymwys ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd o dan ddarpariaethau'r digwyddiad, yn gymwys i gael cymorth Grant i Fyfyrwyr Anabl llawn o'r dyddiad y maent yn dod yn fyfyriwr cymwys.

Bydd myfyrwyr newydd a'r rheini sy'n parhau i astudio yn elwa ar y newidiadau hyn ym mlwyddyn academaidd 2021/22.

## 3. Newidiadau Codio i Ddosbarthiad y Pynciau Addysg Uwch (HECoS)

Mae rheoliad 25 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 yn darparu, o ran cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, i fyfyriwr rhan-

amser fod yn gymwys i gael cymorth, pan na fo’n gymwys fel arall. Yn benodol, bydd myfyriwr rhan-amser yn gymwys i gael cymorth er iddo ennill gradd gyntaf gan sefydliad yn y DU os yw'n astudio un o'r cyrsiau a restrir yn rheoliad 25(2), achos 3. Mae rheoliad 81(28) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018.

Mae’r pynciau esempt wedi’u diffinio gan ddefnyddio Dosbarthiad y Pynciau Addysg Uwch (HECoS)[1]. Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn diwygio'r dosbarthiad o bryd i'w gilydd ac yn ddiweddar mae fersiwn 1.2 wedi’i ddisodli gan fersiwn 1.3.3. Disgwylir i fersiwn 1.2 gael ei ddiddymu ar 31 Gorffennaf 2021. Disgrifiodd Hysbysiad Gwybodaeth blaenorol (SFWIN 02/2020) sut y bydd y newidiadau'n effeithio ar y pynciau esempt.

Mae’r Rheoliadau yn darparu esemptiad i gyrsiau sydd â’r cod Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin (‘CAH’) ‘CAH07 Y Gwyddorau Ffisegol’, ymhlith eraill. Bydd cyfeiriadau at y codau CAH yn cael eu diweddaru yn y rheoliadau. Bydd angen sicrhau nad yw’r tri phwnc sydd bellach yn mapio i'r CAH07 diwygiedig yn cael eu dosbarthu fel esemptiadau.

[1] https://www.hesa.ac.uk/innovation/hecos